

## Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi seilio'r polisi yma ar ddogfen ganllaw Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, [Gwrthdaro Buddiannau: Canllaw i ymddiriedolwyr elusen \(CC29\)](#)

### 1.0 Beth yw Gwrthdaro Buddiannau?

- Gwrthdaro buddiannau: Mae gwrthdaro buddiannau'n codi mewn unrhyw sefyllfa lle gallai buddion neu deyrngarwch personol cyfarwyddwr beryglu ei (g)allu i wneud penderfyniad er lles gorau'r cwmni'n unig, neu lle gellir eu gweld felly.
- Gall gwrthdaro buddiannau godi pan fod cyfarwyddwr mewn sefyllfa neu amgylchiad sy'n effeithio ar ei (g)allu i ffurfio barn neu gyflawni ei swyddogaeth, neu lle y gellid amharu neu ddylanwadu ar hynny gan fuddiannau eilaidd.
- Hyd yn oed os nad yw unigolyn yn cael budd uniongyrchol o benderfyniad, gall gwrthdaro godi os yw'n ymddangos y gellid fod wedi dylanwadu ar y penderfyniad hwnnw. Gall canfyddiad fod buddiannau'n cystadlu â'i gilydd, diffyg crebwyll neu ddylanwad gormodol hefyd gyfrif fel gwrthdaro buddiannau.

2.0 Mae cyfrifoldeb personol gan gyfarwyddwyr i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau os ydynt am gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i weithredu er lles gorau'r Academi Arweinyddiaeth.

3.0 Dylai cyfarwyddwyr ddatgelu eu buddiannau busnes a phersonol a buddiannau eu priod, partner, teulu a pherthnasau agos.

4.0 Caiff buddion cyfarwyddwyr eu diffinio ar dudalen 8 o ddogfen ganllaw'r Comisiwn Elusennau, [Gwrthdaro Buddiannau: Canllaw i ymddiriedolwyr elusen \(CC29\)](#). Mae gofyniad i sicrhau awdurdod cyfreithiol cyn ymrwymo i unrhyw drafodiad sy'n cynnwys rhoi budd i Gyfarwyddwr.

5.0 Dylai cyfarwyddwyr:

- Gofnodi eu buddiannau yng nghofrestr buddiannau'r cyfarwyddwr.
- Datgan eu buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod.
- Eithrio cyfarwyddwr o'r broses o wneud penderfyniad os yw hynny'n briodol a phan fydd yn briodol.
- Cofnodi manylion y trafodaethau a gafwyd a'r penderfyniadau a gymerwyd.

6.0 Bydd y polisi yma'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; caiff ei fonitro a'i orfodi gan Fwrdd Cyfarwyddwyr yr Academi Arweinyddiaeth.